Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar

**Fairview House a White Cottage**

**Tonypandy**
**CF40 2UF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26 Tachwedd 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Fairview House a White Cottage

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Values in Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 19/06/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae pobl yn cael eu hannog i fyw bywyd heini a gwneud dewisiadau bob dydd. Mae cynlluniau cyfredol yn nodi canlyniadau personol pobl. Mae meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol ac mae anghenion iechyd yn cael sylw mewn modd amserol. Mae'r gwasanaeth yn cynnal llinellau cyfathrebu cadarnhaol â gweithwyr proffesiynol, pobl a pherthnasau. Mae'r staff yn trin pobl gydag urddas a charedigrwydd, ac mae perthnasau'n sicr bod y gofal sydd yn cael ei gynnig o safon dda.

Mae'r bobl yn elwa ar gael cymorth cyson oddi wrth dîm gofal profiadol a gwybodus. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda oddi wrth eu rheolwr ac yn cael goruchwyliaeth reolaidd. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gyfforddus ac mae peryglon yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r polisïau yn fanwl ac yn gyfredol ac mae systemau da ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae prosesau recriwtio staff yn cefnogi arferion diogel ac mae gan staff fynediad at hyfforddiant craidd ac arbenigol er mwyn sicrhau bod ganddynt sgiliau digonol i gyflawni eu rolau.

## Llesiant

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch eu bywydau bob dydd. Darperir cyfarfodydd preswylwyr ac adolygiadau o gynlluniau personol gyfleoedd i bobl fynegi eu safbwyntiau a'u barn. Cynorthwyir pobl i gadw mewn cysylltiad â pherthnasau ac unigolion allweddol mor aml ag y dymunant. Mae'r gweithwyr gofal yn sicrhau bod pobl yn llenwi eu diwrnod drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried ac mae'r cartref yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn  ymweld â'r cartref yn rheolaidd i gasglu adborth ac i sicrhau bod y gofal a ddarperir yn cynorthwyo llesiant pobl.

Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo llesiant corfforol ac emosiynol pobl. Mae cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal cyfredol, nodau yn y dyfodol a dyheadau. Mae adolygiadau yn ystyried newidiadau mewn anghenion gofal ac i ba raddau mae pobl wedi gallu cyflawni nodau unigol. Mae atgyfeiriadau prydlon i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gwaith da i reoli meddyginiaethau yn cynorthwyo pobl i aros mor iach ag y gallant fod. Mae'r arferion dyddiol yn canolbwyntio ar ffyrdd iach o fyw a dietau iach. Mae unrhyw ymddygiadau a allai fod yn heriol yn cael eu deall a'u rheoli mewn ffordd sy'n lleiaf rhwystrol.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu pobl rhag niwed a cham-drin. Mae polisïau cyfredol yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gynnal arferion da. Mae gwiriadau recriwtio yn sicrhau bod gan y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth gymeriad da a sgiliau addas. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynglŷn â phryderon diogelu. Mae'r asesiadau risg yn sicrhau bod unrhyw ofal a ddarperir neu weithgareddau a wneir mor ddiogel ag y bo modd. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu'r cyrff perthnasol yn gyflym am bryderon neu ddigwyddiadau. Darperir cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol a phecynnau profi am COVID-19 i weithwyr gofal, ac mae'r gweithwyr hyn yn adrodd eu bod yn hyderus wrth ddefnyddio'r offer hwn.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cefnogi llesiant pobl. Mae mynediad diogel i'r safle yn sicrhau mai unigolion ag awdurdod yn unig sy'n cael dod i mewn i'r adeilad. Mae'r amgylchedd wedi cael ei addurno'n dda ac mae'n gartrefol ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon dda. Mae'r ardaloedd cymunol a phreifat yn lân a heb unrhyw flerwch. Gall pobl dreulio eu diwrnod yn yr ardaloedd cymunol, yn eu hystafelloedd eu hunain neu yn eu hystafelloedd byw personol, fel y mynnant. Mae'r gwasanaeth yn cynnal gwiriadau diogelwch a mesurau diogelwch tân priodol i sicrhau bod pobl yn aros mor ddiogel â phosib.

## Gofal a Chymorth

Adlewyrchir anghenion unigol a gwir ymdeimlad o'r unigolyn yn y cynlluniau personol. Mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau personol yn cynnwys mewnbwn oddi wrth bobl a/neu eu cynrychiolwyr. Mae'r ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol. Mae'r staff yn llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen cynlluniau diweddaredig a'u bod yn gyfarwydd ag anghenion unigol. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd mwyhau cryfderau pobl a chyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol yn helpu i ddatblygu cynlluniau ac yn cyfrannu at y gwaith o adolygu gofal. Rhoddir cynlluniau ar waith i leihau risgiau personol a'r risg i eraill a berir gan unrhyw beryglon a nodwyd. Mae pobl yn mynychu apwyntiadau iechyd arferol ac mae'r gwasanaeth yn ymdrin ag unrhyw newidiadau i iechyd mewn modd amserol. Mae cynlluniau yn nodi anghenion diwylliannol a chrefyddol, gan gynnwys gwybodaeth am sut i ddilyn calendrau crefyddol ac unrhyw newidiadau mewn anghenion deietegol yn ystod yr amser hwn. Mae gan bobl fynediad at ddehonglwyr i helpu dealltwriaeth a chyfathrebu. Mae cynlluniau cyfathrebu yn sicrhau bod gweithwyr gofal yn gwybod sut mae cyfarch pobl yn yr iaith o'u dewis, sy'n eu helpu i gynorthwyo rhyngweithiadau cadarnhaol.

Mae pobl yn elwa ar ofal o safon dda. Mae trosiant staff isel yn golygu bod gweithwyr gofal yn gyfarwydd ag anghenion pobl ac yn deall eu hoffterau a'r hyn sy'n gas ganddynt. Mae rhaglen barhaus o weithgareddau dyddiol yn galluogi pobl i wneud y pethau maent yn eu mwynhau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom unigolyn yn cael ei gynorthwyo i gasglu ei bapur newydd dyddiol, a oedd yn bwysig er mwyn iddo gael dechrau cadarnhaol i'w ddiwrnod. Gwelsom gynlluniau ar waith i alluogi pobl i fynychu sesiynau cymunedol a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Dywedodd perthnasau wrthym fod y gofal a ddarperir "*heb ei ail*", bod gweithwyr gofal yn "*gyfeillgar*" ac "*fel teulu*", a bod y rheolwr yn "*rhagorol*". Yn ystod yr arolygiad, ymatebodd gweithwyr gofal i bobl mewn modd amserol a gwelsom nifer o ryngweithiadau dilys a chyfeillgar.

Gwelsom systemau ar waith ar gyfer helpu pobl gyda'u meddyginiaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gweld bod y rhain wedi eu cwblhau'n briodol. Mae trefniadau diogel ar waith ar gyfer storio meddyginiaeth. Mae gan y gwasanaeth yr awdurdodiadau cywir ar gyfer y bobl hynny sydd â diffyg dealltwriaeth ynghylch eu hanghenion meddyginiaeth. Mae'r strategaethau ac asesiadau risg ar waith yn golygu bod gweithwyr gofal ond yn ystyried meddyginiaeth yn ôl yr angen ar ôl archwilio'r holl opsiynau eraill. Mae gwiriadau cymhwysedd staff ac archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod pobl yn cael y feddyginiaeth gywir a bod arferion yn aros yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn elwa o amgylchedd sydd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r dodrefn a'r addurniadau yn y cartref mewn cyflwr da ac mae'r ystafelloedd yn teimlo'n groesawgar a dymunol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r dodrefn wedi cael eu diweddaru a'r gwaith paent wedi cael ei adnewyddu. Mae gwaith i dirweddu'r ardd yn barhaus gyda waliau a grisiau newydd o flaen yr adeilad. Bydd hyn yn darparu llwybr at yr adeilad pren synhwyraidd newydd yn yr ardd a brynwyd gan y gwasanaeth. Mae ystafelloedd gwely ac ardaloedd cymunol yn addas i anghenion pobl, sy'n caniatáu iddynt symud o gwmpas yn ddiogel. Mae amserlenni glanhau dyddiol ar waith ac mae staff a enwir yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal gwiriadau penodol. Gwelsom fesurau rheoli heintiau da a defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol.

Mae amgylchedd y cartref yn saff a diogel ac mae gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio'n briodol. Mae pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad ac mae profion parhaus yn lleihau'r risgiau o ledaenu COVID-19. Mae profion nwy a thrydan yn gyfredol ac mae'r holl gyfarpar yn cael ei wasanaethu. Mae gan bobl cynlluniau personol gadael mewn argyfwng os bydd angen gadael yr adeilad ar frys. Mae ymarferion tân yn cael eu gwneud yn rheolaidd ac mae'r staff yn sicrhau eu bod nhw'n rhoi sylweddau glanhau sy'n beryglus i iechyd o dan glo. Mae cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel o fewn y cartref ac maent ond ar gael i weithwyr gofal ag awdurdod.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd yn effeithiol. Mae gan y gwasanaeth ystod o bolisïau a gweithdrefnau sy'n addas i'w diben ac mae gan y gweithwyr gofal y siaradasom â nhw ddealltwriaeth dda o'r rhain. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gyfredol, yn adlewyrchu'r gofal sy'n cael ei ddarparu, ac ar gael yn Gymraeg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ymweliadau bob tri mis ac adolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis i sicrhau bod pobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae archwiliadau a gynhelir yn dangos bod gwaith monitro yn barhaus a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn modd amserol i ymdrin ag unrhyw faterion ymarfer. Mae'r gwasanaeth yn hysbysu'r gweithwyr proffesiynol perthnasol am ddigwyddiadau a digwyddiadau arwyddocaol.

Mae'r gwaith o recriwtio staff yn effeithiol ac mae gweithwyr gofal yn cael cefnogaeth i gynnal eu hymarfer proffesiynol a gwybodaeth. Mae ffeiliau recriwtio mewn trefn dda ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Mae'r matrics hyfforddi yn cadarnhau bod y gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd hyfforddi aml a bod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol cyfredol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg ac mae rhai siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt y sgiliau a gwybodaeth gywir i gynorthwyo pobl.

Mae gweithwyr gofal yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi ac maent yn cael goruchwyliaeth reolaidd. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm a goruchwyliaeth reolaidd i gefnogi datblygiad proffesiynol ac i drafod unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd morâl y staff i'w weld yn gadarnhaol ac roedd staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Cafodd hyn ei gadarnhau yn yr adborth a gawsom oddi wrth staff ac yng nghofnodion sesiynau goruchwylio. O edrych ar nifer o rotâu staffio a'r adborth a ddarparwyd, gallwn fod yn hyderus fod lefelau staff digonol ar waith. Nid yw'r gwasanaeth yn defnyddio gweithwyr asiantaeth i lenwi prinder staff, sy'n sicrhau bod pobl yn cael cymorth oddi wrth dîm o staff sy'n gyson ac yn ddeallus. Dywedodd staff gofal wrthym eu bod nhw'n mwynhau eu gwaith; mae ganddynt rolau a chyfrifoldebau clir ac maent yn deall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 27/01/2022